



Diwygiadau caffael DSA – Cwestiynau ac Atebion Diwrnod Cyflenwyr

Mawrth 2022

Gweler isod ymatebion i gwestiynau a gyflwynwyd trwy borth Delta eSourcing. Os nad yw cwestiwn penodol yn ymddangos, y rheswm am hynny yw bod cwestiynau lluosog ar yr un pwnc wedi'u cyflwyno ac rydym wedi cynnwys un ymateb cyffredinol.

Os nad yw testun eich cwestiwn yn ymddangos, mae dau reswm pam na allwn ateb eich cwestiwn:

1. Ar hyn o bryd, dim ond cwestiynau sy'n ymwneud â'r hyn a gyflwynwyd ar ddiwrnod y cyflenwr y gallwn eu hateb. Ni allwn ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r manylion a fydd yn dilyn yng nghamau dilynol y caffaeliad, felly, bydd unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) neu fanylion cytundebol ar gael yn y wybodaeth yn y cam nesaf.
2. Ni allwn ateb cwestiynau ar ran Llywodraeth Cymru nac Adran Addysg Llywodraeth y DU. Nid ydym yn gallu ateb cwestiynau sy'n ymwneud â pholisi.

Caffael

C: Beth sy'n cael ei gaffael?

A: Ceisir cyflenwyr i ddarparu asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol, hyfforddiant technoleg gynorthwyol a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig i fyfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) gan Gyllid Myfyrwyr Lloegr (SFE) a Chyllid Myfyrwyr Cymru (CMC).

Cyflenwad technoleg gynorthwyol i gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd yn ogystal ag amrywiaeth o offer eraill megis dodrefn ergonomig, perifferolion cyfrifiadurol (argraffwyr a sganwyr), recordwyr llais, ac eitemau mwy arbenigol eraill fel darllenwyr braille.

Nid yw Cymorth Anfeddygol (NMH) a theithio wedi'u cynnwys yng nghwmpas y caffael hwn.

C: Pam mae contractau'n cael eu rhoi ar waith nawr?

A: Mae'r diwygiadau yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i roi contractau ar waith ar gyfer darparwyr DSA.

Gwyddom hefyd fod y broses DSA bresennol yn hir a chymhleth a bydd model cyflenwr newydd yn helpu i fynd i'r afael â phwyntiau poen sylweddol yn nhaith bresennol y cwsmer.

C: Sut ydych chi wedi pennu'r pwyntiau poen?

A: Mae SLC wedi cynnal ymchwil cwsmeriaid cyn y diwygiadau i'r DSA, gan gynnwys arolygu dros 4,500 o gwsmeriaid a chynnal nifer o gyfweiliadau un i un manwl i ddeall taith y cwsmer a dilysu'r pwyntiau poen a nodwyd.

Rydym hefyd wedi sefydlu Panel Cwsmeriaid DSA i glywed mwy am brofiadau cwsmeriaid sy'n cael DSA a helpu llunio'r diwygiadau.

C: A fydd yr ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi?

A: Na, nid yw SLC yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad pellach o'r ymchwil. Oherwydd natur gyfrinachol a phersonol y trafodaethau gyda'r panel cwsmeriaid a chyfweleion un i un, gan gynnwys rhannu profiadau personol, nid ydym yn gallu rhannu'r wybodaeth hon.

C: Pam y rhoddwyd y gorau i ymarfer caffael blaenorol?

A: Gwnaeth SLC, ar y cyd ag Adran Addysg Llywodraeth y DU ac Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru, y penderfyniad i roi'r gorau i'r caffael blaenorol i gydnabod y ffaith inni gael y cyfle i ddefnyddio'r caffael i gynyddu effeithlonrwydd prosesau hefyd, a gwerth am arian, a gwella profiad y cwsmer.

C: A yw SLC yn ystyried nad oes unrhyw bryderon gwrthdaro buddiannau mwyach o ystyried yr anogir cydweithredu?

A: Dylai'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng cyflenwyr leihau drwy drefniadau cytundebol ffurfiol.

Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, bydd gan SLC gymalau cytundebol sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrth-gystadleuol a KPIs cadarn ar waith gyda chyflenwyr newydd. Bydd SLC hefyd yn parhau i adolygu a chymeradwyo holl argymhellion asesiadau anghenion.

C: Dylai integreiddio asesu, cyflenwad offer a hyfforddiant wella taith y myfyriwr. Fodd bynnag, er bod aseswyr yn cadw llygad ar y pwrs cyhoeddus, eu prif deyrngarwch yw myfyrrwyr anabl ac, efallai, i'r sefydliad y maent yn gweithredu ynddo, a allai arwain at or-ragnodi neu fod yn rhy hael. Gallai hynny yn ei dro arwain at alwadau am dorri costau, pecynnau safonol ac ati. Pa fesurau fydd yn cael eu cymryd i atal gor-ragnodi tra'n parhau i sicrhau datrysiadau priodol, personol?

A: Bydd SLC yn parhau i adolygu a chymeradwyo holl argymhellion asesiad anghenion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi DSA a'u bod yn briodol i ddiwallu anghenion y myfyriwr.

Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, bydd gan SLC gymalau cytundebol sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrth-gystadleuol a KPIs cadarn ar waith gyda chyflenwyr newydd.

C: Cyfeiriwyd at y model gwasanaeth newydd fel model gwasanaeth newydd "posibl" sawl gwaith trwy gydol y cyflwyniad (sleid 3: "model darparu newydd posibl", sleid 4: "model gwasanaeth posibl, cwbl newydd", sleid 6: "dyfodol posib ymarfer caffael DSA"). Beth mae SLC yn ei olygu gyda'r defnydd o'r gair "posibl"?

A: Roedd y defnydd o'r gair "posibl" yn cydnabod nad yw'r broses gaffael ffurfiol wedi dechrau nes bod yr alwad am gystadleuaeth wedi'i chyhoeddi.

C: Mewn perthynas â SLC y cyfeirir ato fel y prynwr, a ydym yn gywir wrth dybio, wrth gyfeirio at SLC, fod hyn yn cwmpasu ein perthynas a'n cyswllt â CMC a SFE?

A: Ydy, SLC yw'r corff contractio ar ran cwsmeriaid Student Finance England a Chyllid Myfyrwyr Cymru.

C: Y rhesymeg dros newid yw gwella profiad y cwsmer a mynd i'r afael â phwyntiau poen. A oes unrhyw bwyntiau o blaid y system bresennol yr ydych am eu cadw? Beth ydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf am y profiad myfyriwr rydych chi am ei gadw?

A: Byddwn yn ceisio cadw a chryfhau'r agweddau ansawdd gwasanaeth y mae myfyrwyr yn eu derbyn yn awr. Rydym hefyd yn anelu at gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael eu cymorth DSA.

C: Mae ymddygiad diweddar yn y sector ymhlith rhai cwmnïau mwy yn awgrymu y gallai fod wedi bod yn ymwybodol o'r diwygio gan arwain at un contract a rhaniad rhanbarthol. A oes unrhyw bosibilrwydd bod rheolau cystadleuaeth wedi'u torri ac a yw hyn yn rhywbeth yr ydych yn barod i ymchwilio iddo?

A: Os oes gan unrhyw un dystiolaeth o dorri rheolau cystadleuaeth mewn perthynas â'r caffaeliad, dylent ddarparu tystiolaeth i SLC i'w hymchwilio a/neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd drwy: [Adrodd am broblem cystadleuaeth neu farchnad - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Model caffael

C: Beth yw'r model caffael newydd?

A: O dan y model caffael newydd, bydd y cyflenwad o asesiadau anghenion, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a hefyd cymorth technoleg gynorthwyol parhaus, yn cael eu darparu o dan un cyflenwr, yn hytrach na chyflenwyr ar wahân yn unol â'r trefniant presennol.

Mae'r model gwasanaeth newydd yn berthnasol i gwsmeriaid sy'n cael eu hariannu gan SFE a CMC. Bydd caffael cyflenwyr i wasanaethu'r model yn cael ei gynnig o dan bedair lot drwy rannu SFE a CMC yn bedair ardal ddaearyddol o faint cyfartal yn fras o ran nifer y cwsmeriaid DSA o flynyddoedd blaenorol.

C: A all y DSA esbonio ei sail resymegol ar gyfer rhanbartholi'r Lotiau? Pam y gall cyflenwyr sy'n gweithredu'n genedlaethol (ledled y DU) wneud cais am ddau ranbarth yn unig? Sut mae'r DSA yn disgwyl i gyflenwyr ddewis y rhanbarthau hynny pan fydd ganddynt y gallu a'r cynnig gwerth i weithredu ym mhob un ohonynt?

A: Nid yw cyflenwyr yn gyfyngedig i wneud cais am ddau ranbarth. Gall cyflenwyr ddewis cynnig ar bob lot, fodd bynnag, dyfernir uchafswm o ddau i unrhyw un cyflenwr.

Er mwyn cyflawni yn erbyn y rhesymeg dros newid, o dan y model cyflawni newydd, bydd cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a'r cymorth technoleg gynorthwyol parhaus yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr rhanbarthol unigol. Bydd hyd at bedwar cyflenwr i gyflwyno'r model ar draws pedair lot rhanbarthol.

Bydd y cynhyrchion a'r gwasanaethau'n gyson ym mhob lot rhanbarthol a gall cyflenwyr strwythuro'r gwasanaethau yn y ffordd y maent yn teimlo sydd orau i fodloni gofynion y contract.

Mae'r model pedwar cyflenwr rhanbarthol yn lliniaru yn erbyn y risg bosibl o fethiant cyflenwyr o dan fodel un cyflenwr cenedlaethol.

C: A ganiateir bidiau gan un sefydliad â chwmpas cenedlaethol os caiff y bidiau hyn eu rhannu i'r lotiau daearyddol perthnasol?

A: Gellir, gall cyflenwyr strwythuro'r gwasanaethau mewn ffordd y maent yn teimlo sydd orau i fodloni gofynion y contract. Gall cyflenwyr ddewis cynnig ar bob lot, fodd bynnag, dyfernir uchafswm o ddau i unrhyw un cyflenwr.

C: A fydd busnes bach yn cael y cyfle i arwain cynnig yn hytrach na chael cwmni allanol mawr i gymryd yr elw?

A: Gall cyflenwyr strwythuro'r gwasanaethau mewn ffordd y maent yn teimlo sydd orau i fodloni gofynion y contract.

C: Beth mae SLC yn mynd i'w wneud, fel rhan o'r model caffael newydd hwn, i ddiogelu busnesau bach a chanolig?

A: Mae strwythur y model caffael wedi'i gynllunio i apelio at yr ystod ehangaf o gynigwyr. Mae SLC yn croesawu ac yn annog cyflenwyr - yn etifeddol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad DSA - yn unol â chefnogaeth y llywodraeth i BBaChau.

Rydym yn annog partion â diddordeb i ffurfio perthnasoedd i ganiatáu i ddulliau arloesol gael eu cynnig a chyflawni cwmpas daearyddol llawn.

C: A allwch chi fod yn brif gais ac yn is-gontractwr ar gais arall?

A: Gall cyflenwyr gynnig am gynifer o lotiau ag y dymunant boed fel y prif ymgeisydd / ymgeisydd arweiniol a / neu is-gontractwr.

C: A all sefydliad ymddangos mewn cyflwyniadau Tendr lluosog, mewn ffurfiannau a modelau amrywiol? h.y. fel statws Prif Gontractwr a/neu Is-gontractwr?

A: Gall cyflenwyr gynnig am gynifer o lotiau ag y dymunant boed fel y prif ymgeisydd / ymgeisydd arweiniol a / neu is-gontractwr.

Bydd y broses yn golygu y bydd darparwyr aml-lot yn gallu nodi lotiau a ffafrir.

Dim ond uchafswm o ddwy lot y gall unrhyw un cyflenwr ymwneud â hwy, p'un a yw'r cyfranogiad hwnnw fel prif ymgeisydd / ymgeisydd arweiniol, yn is-contractwr neu'n aelod o Gyd Fenter, Consortiwm neu Gyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV).

Bydd y cyfyngiad hwn hefyd yn berthnasol os yw cyflenwr yn rhan o grŵp, bydd yr uchafswm o ddwy lot yn berthnasol ar draws unrhyw a phob endid grŵp (gan gynnwys rhiant endidau).

Bydd y cyfyngiad hwn hefyd yn berthnasol i gyflenwyr cysylltiedig fel os oes gan gyflenwr fuddiant perchnogaeth o 10% neu fwy mewn cyflenwr arall neu gyflenwr arfaethedig, bydd yr uchafswm o ddwy lot yn berthnasol ar draws cwmnïau cysylltiedig o'r fath.

Os bydd cyflenwr, yn y broses o ddyfarnu, yn rhan o gais llwyddiannus am ddwy lot a ddyfarnwyd, ni fydd unrhyw geisiadau pellach y mae'r cyflenwr yn rhan ohonynt yn cael eu hystyried.

Bydd manylion llawn y broses cyfyngu lotiau yn cael eu nodi yn y dogfennau caffael

Yn y broses ddyfarnu ac ni fydd cyflenwyr cysylltiedig yn cael mwy na dwy Lot.

C: A wnaiff yr awdurdod gadarnhau a fyddai'n well ganddo gael un cyflenwr ar gyfer pob un o'r 4 lot, at ddibenion gwydnwch, hyblygrwydd a sefydlogrwydd; neu a yw'n well cael 2 gyflenwr ar gyfer 2 lot yr un, at ddibenion symlrwydd ac effeithlonrwydd?

A: Nid oes gan SLC unrhyw ffafriaeth. Bydd y contractau'n cael eu dyfarnu i'r cyflenwyr sy'n dangos orau eu bod yn gallu bodloni gofynion y contract.

C: A oes model prif + is-contractwr a ffefrir (h.y. ATSP fel y prif ddarparwr neu ddarparwr asesu fel y prif?)

A: Nid oes gan SLC unrhyw ffafriaeth. Bydd y contractau'n cael eu dyfarnu i'r cyflenwyr sy'n dangos orau eu bod yn gallu bodloni gofynion y contract.

C: Ar gyfer lotiau gyda darparwyr lluosog (os yw'n berthnasol) a fydd y system e-ddyfynnu interim yn cael ei defnyddio i sefydlu'r darparwr mwyaf cost-effeithiol yn y rhanbarth hwnnw?

A: O dan y model cyflawni newydd, bydd cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a'r cymorth technoleg gynorthwyol parhaus yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr rhanbarthol unigol. Bydd gan bob lot un darparwr ac nid darparwyr lluosog.

C: A allwch gadarnhau bod yn rhaid i gyflenwyr wneud cais am bob gwasanaeth mewn lot parth ac nad oes cyfle i wneud cais am is-lotiau mewn gwahanol ranbarthau. Er enghraifft, nid yw'n bosibl gwneud cais am dechnoleg gynorthwyol ym Mharth 1 a hyfforddiant technoleg gynorthwyol ym Mharth 2.

A: Bydd cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a'r cymorth technoleg gynorthwyol parhaus yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr rhanbarthol unigol. Nid yw'n bosibl gwneud cais am is-lotiau.

Cynigiwyd y cyfle i bartïon â diddordeb rannu eu manylion cyswllt â sefydliadau eraill i gydweithio ar fidiau. Anfonwyd y manylion hyn at yr holl ymatebwyr a gofrestrwyd ar borth Delta eSourcing.

C: A ellir parhau i ychwanegu at y 'gofrestr o gyflenwyr' ar ôl 2 Mawrth? A all SLC ddarparu estyniad ar y dyddiad hwn? Os felly, a all SLC nodi dyddiad yr estyniad cyn gynted â phosibl.

A: Os hoffech ychwanegu eich manylion at y gofrestr hon, anfonwch nhw trwy borth eGyrchu Delta a byddwn yn ail-gylchredeg y rhestr.

C: Beth yw'r rhesymeg dros gyfyngu'r bidiau i ddau fesul rhanbarth? Beth ydych chi'n disgwyl ei gael allan o hyn? Onid yw hyn yn debygol o arwain at wahaniaethau mewn darpariaeth a gwahaniaethau ansawdd a chost ar draws y rhanbarthau?

A: Nid yw cyflenwyr yn gyfyngedig i wneud cais am ddau ranbarth. Gall cyflenwyr ddewis cynnig ar bob lot, fodd bynnag, dyfermir uchafswm o ddau i unrhyw un cyflenwr.

Mae strwythur y model caffael wedi'i gynllunio i apelio at yr ystod ehangaf o gynigwyr. Mae SLC yn croesawu ac yn annog cyflenwyr - yn etifeddol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad DSA - yn unol â chefnogaeth y Llywodraeth i BBaChau.

Rydym yn annog partïon â diddordeb i ffurfio perthnasoedd i ganiatáu i ddulliau arloesol gael eu cynnig a chyflawni cwmpas daearyddol llawn.

Bydd cyflenwyr hefyd yn gweithio gyda'r SLC, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i wella a chryfhau'r safonau ansawdd presennol.

C: Ar gyfer cyflwyniadau fel consortiwm, a yw SLC yn chwilio am lefel benodol o strwythur corfforaethol?

A: Gall cyflenwyr strwythuro'r gwasanaethau mewn ffordd y maent yn teimlo sydd orau i fodloni gofynion y contract.

C: Crybwyllwyd "consortia". Diffiniwch os gwelwch yn dda. Er enghraifft, a yw hyn yn golygu y byddai SLC yn rhoi contractau i sawl cyflenwr yn unigol mewn rhanbarth, neu a yw cynllun y rhaglen wedi'i gyfyngu i un contract cyflenwi ym mhob rhanbarth?

A: O dan y model cyflawni newydd, bydd cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a'r cymorth technoleg gynorthwyol parhaus yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr rhanbarthol unigol. Bydd gan bob lot un darparwr ac nid darparwyr lluosog.

C: A bod popeth yn gyfartal, a fydd cydweithio (cynigion ar y cyd / consortia) yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol na chais unigol?

A: Nid oes gan SLC unrhyw ffafriaeth. Bydd y contractau'n cael eu dyfarnu i'r cyflenwyr sy'n dangos orau eu bod yn gallu bodloni gofynion y contract.

C: Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau na fydd cwmnïau mawr, nad oes angen iddynt ymuno â chwmnïau llai er mwyn tendro, yn y pen draw yn meddiannu pob un o'r pedwar rhanbarth ac yn cymryd cyfran lawn o'r farchnad, gan wasgu allan yr holl gwmnïau llai sy'n darparu gwasanaethau rhagorol ar hyn o bryd.

A: Bydd y contractau'n cael eu dyfarnu i'r cyflenwyr sy'n dangos orau eu bod yn gallu bodloni gofynion y contract.

C: Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr a gefnogir gan ganolfannau asesu llai a hyfforddwyr AT yn mwynhau gwasanaeth hynod bersonol ac unigol. Caiff perthnasoedd eu meithrin a'u cynnal dros gyfnod hir o amser ag aseswyr sy'n adnabod y myfyriwr a'i anghenion. Sut y byddwch yn cadw'r ansawdd hwn o wasanaeth o ystyried bod myfyrwyr sy'n cael eu gweld gan gwmnïau mwy ar hyn o bryd yn cael gwasanaeth llawer mwy amhersonol? Un enghraifft o hyn yw y bydd myfyrwyr sy'n cael eu hasesu gan gwmnïau llai fel arfer yn cael unrhyw adolygiad o anghenion neu newidiadau i gymorth gyda'u haseswr gwreiddiol. Gyda'r cwmnïau mwy byddant fel arfer yn cael eu hadolygu gan aseswr newydd sy'n anhysbys i'r myfyriwr ac i'r gwrthwyneb.

A: Bydd cyflenwyr yn gweithio gyda'r SLC, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i wella a chryfhau'r safonau ansawdd presennol. Gan weithio gyda'i gilydd, byddant yn creu fframwaith ansawdd sy'n sicrhau bod profiad cwsmeriaid wrth wraidd y diwygiadau. Bydd hyn yn cynnwys lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, safonau ansawdd a phrosesau ar gyfer datrys achosion eithriadol.

C: Beth yw'r ffiniau rhanbarthol?

A:

Parth	Tiriogaeth	Nifer cwsmeriaid (Blwyddyn academaidd 20-21)	% cyfran o fyfyrwyr
1	Yr Alban Gogledd-orllewin Lloegr Gogledd-ddwyrain Lloegr Swydd Gaerefrog a'r Humber	171 6,940 2,265 4,990 Cyfanswm = 14,366	24.9%
2	Gorllewin Canolbarth Lloegr Dwyrain Canolbarth Lloegr	5,512 4,255	22.9%

	Cymru Gogledd Iwerddon	3,988 9 Cyfanswm = 13,183	
3	Dwyrain Lloegr Llundain	5,245 10,353 Cyfanswm = 15,598	27.1%
4	De-orllewin Lloegr De-ddwyrain Lloegr	5, 285 9,114 Cyfanswm = 14,399	25%

C: Mae lotiau'n cael eu rhannu fel arfer yn ôl gwasanaethau neu gynnyrch. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, a all SLC gadarnhau bod y Lotiau yn ddaearyddol eu natur a'u bod yn unol â'r pedwar parth a gynrychiolir yn y sleidiau a gyflwynwyd ar y diwrnod cyflenwr?

A: Ydy, mae'r lotiau'n cynrychioli'r rhaniad rhanbarthol.

C: Sut y penderfynwyd ar y ffiniau rhanbarthol?

A: Mae'r rhanbarthau'n seiliedig ar nifer y ceisiadau DSA a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol wedi'u rhannu mor gyfartal â phosibl i greu pedair lot rhanbarthol.

C: Pam nad yw Cymru yn lot unigol?

A: Mae rhanbarthau cyfagos wedi cael eu grwpio gyda Chymru ar sail cyfaint i wneud maint y lotiau ar draws y Deyrnas Unedig mor gyfartal â phosibl. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod swm y busnes a ddyfernir ar gyfer pob lot mor deg neu gyfartal â phosibl. Mae CMC yn cefnogi cyfartaledd o bedwar i bum mil o gwsmeriaid DSA y flwyddyn, felly, ar y raddfa hon, i fod yn ddeniadol i'r ystod ehangaf o gyflenwyr mae Cymru'n cael ei chynnwys fel rhan o ardal ddaearyddol fwy.

C: O ystyried bod Cymru yn wlad gyda'i system addysg ddatganoledig ei hun, a allwch chi egluro pam mae'r caffael wedi gostwng ei statws i statws 'rhanbarth'?

A: Mae'r caffael wedi'i rannu'n bedair ardal ddaearyddol ac mae Cymru wedi'i chynnwys yn un o'r ardaloedd daearyddol hynny, at ddibenion caffael yn unig.

C: Pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer y Gymraeg?

A: Rhaid i gyflenwyr yn bidio am Lot 2 gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r contract hwn. Bydd disgwyl i'r cyflenwr adrodd yn erbyn Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r contract hwn bob blwyddyn.

C: A oes gofyniad iaith Gymraeg ar gyfer pob lot neu ai dim ond ar gyfer Lot 2 y mae?

A: Dim ond Lot 2 sydd â gofyniad iaith Gymraeg.

C: A ydych yn rhagweld unrhyw amgylchiadau lle bydd y ffiniau rhanbarthol yn newid?

A: Rydym yn rhagweld y bydd y ffiniau rhanbarthol yn parhau yn eu lle am gyfnod y contract.

Taith y cwsmer

C: A oes disgwyl y bydd cyrff cyllido yn parhau i reoli'r broses o wneud cais am DSA, cymhwyster myfyrwyr ar gyfer DSA a chymeradwyaeth myfyrwyr i DSA2?

A: Oes, nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar y broses ymgeisio bresennol ar gyfer myfyrwyr.

C: A all SLC roi eglurhad ar y gofyniad i gwblhau asesiadau o anghenion os yw'r myfyriwr yn byw yn rhanbarth 1 ond yn astudio yn rhanbarth 4. Ble bydd yr asesiad anghenion yn cael ei gynnal?

A: Bydd cwsmeriaid yn cael eu neilltuo i barth daearyddol yn seiliedig ar eu cyfeiriad ar adeg gwneud cais am DSA, er mwyn sicrhau bod yr effaith leiaf bosibl ar unrhyw fyfyrwr y byddai'n well ganddo gael asesiad anghenion wyneb yn wyneb.

Bydd cyflenwyr yn darparu asesiadau anghenion wyneb yn wyneb neu o bell, yn ôl dewis y cwsmer, ar gyfer cwsmeriaid sy'n hanu o'r parth neu'r parthau y maent yn gyfrifol amdanynt. Os bydd cwsmer yn adleoli i gyfeiriad gwahanol o fewn parth gwahanol ond yn dal i fod angen ei asesiad anghenion wyneb yn wyneb, gall y cwsmer ddewis cael ei ailddyrannu i'r cyflenwr partner yn y parth hwnnw. Rydym yn rhagweld y bydd nifer sy'n cael ei hail ddyrannu'n isel.

Efallai y bydd angen i gyflenwyr gyflwyno technoleg gynorthwyol, hyfforddiant technoleg gynorthwyol a chymorth technoleg gynorthwyol mewn parth gwahanol i ddarparu ar gyfer y senario lle mae myfyrwyr yn gwneud cais am DSA yn eu cyfeiriad cartref lle mae eu hanghenion yn cael eu hasesu, ond yn mynychu neu'n byw mewn parth gwahanol.

C: Soniodd SLC am amser a aeth heibio o fwy na 100 diwrnod rhwng y cais a derbyn yr offer. A all SLC ddarparu dadansoddiad manylach o nifer y diwrnodau rhwng pob cam ar gyfer y model presennol?

A: Mae'r rhan hiraf o daith y cwsmer ar hyn o bryd o'r pwynt y mae SLC yn anfon llythyr cymhwyster y cwsmer i'r pwynt y byddwn yn derbyn yr adroddiad asesiad anghenion (NAR) yn ôl. Gall hyn gymryd, ar gyfartaledd, 50 diwrnod. Credwn fod y model cyflawni arfaethedig, a fydd yn cael gwared ar y cyfrifoldeb ar y cwsmer i yrru'r broses, wedi'i alluogi drwy rannu data â phartneriaid rhanbarthol ac wedi'i gefnogi gan Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn, yn fodd i leihau'r amser a aeth heibio ar gyfer y rhan hon o'r broses.

C: Gan y bydd SLC yn gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr rhanbarthol, a oes gennych nifer cyfartalog y diwrnodau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth feddygol i'w gytuno a chyhoeddi'r DSA1?

A: Yn y model darparu newydd, bydd SLC yn rhannu'n ddiogel fanylion cwsmeriaid yr ystyriwyd eu bod yn gymwys ar gyfer DSAs, er mwyn galluogi'r partneriaid rhanbarthol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chwsmeriaid i archebu eu hasesiad o anghenion. Bydd SLC yn parhau i weithredu o fewn KPAs i adolygu tystiolaeth anabledd a gyflwynir gan gwsmeriaid mewn modd amserol.

C: O'r rhaniad canrannol a ddarparwyd ar draws rhanbarthau, ai dyma'r nifer tybiedig o ymgeiswyr llwyddiannus yn dilyn asesiad neu ai dyma'r niferoedd a ragwelir o asesiadau gofynnol? Os felly, beth yw'r ganran dybiedig y byddai angen caffael offer ar ei chyfer?

A: Y 57,500 o gwsmeriaid o fewn y rhaniad rhanbarthol (sleid 16) yw nifer y cwsmeriaid yr ystyriwyd eu bod yn gymwys i gael DSA yn y flwyddyn academaidd 2020 - 2021. Aeth dros 40,000 o'r cwsmeriaid hyn ymlaen i archebu asesiadau o anghenion. Mae'n anochel y bydd elfen o gwsmeriaid yn dewis peidio â pharhau â'r broses am nifer o resymau. Fodd bynnag, rhagwelwn y gallai'r model newydd, lle bydd partneriaid rhanbarthol yn gweithio'n rhagweithiol i archebu asesiadau o anghenion ar ran cwsmeriaid, arwain at gynnydd yn y nifer sy'n defnyddio asesiadau anghenion.

Ystyrir bod angen technoleg gynorthwyol ar y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid yr asesir eu hanghenion.

C: Amcangyfrifir y byddai amser taith myfyrwyr yn cael ei leihau 25 diwrnod, ble yn y broses newydd yr amcangyfrifir y bydd yr arbediad?

A: Bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni trwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn ar gyfer pob rhan o'r broses ac ymgysylltiad gweithredol cyflenwyr â'r myfyriwr i'w cynorthwyo'n rhagweithiol drwy'r broses.

C: A fydd rhai o argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo ymlaen llaw yn hytrach na chymeradwyo pob adroddiad gan SLC? Byddai hyn yn helpu i leihau hyd taith y myfyriwr.

A: Bydd SLC yn parhau i adolygu a chymeradwyo argymhellion Asesiad Anghenion.

C: Ai'r bwriad yw bod y darparwyr dan contract yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am symud drwy'r llif gwaith ar gyfer y cwsmer? Felly, ar ôl i gymeradwyaethau gael eu gwneud, maen nhw'n rhagweithiol o ran cysylltu â'r cwsmer neu a yw'r bwriad yn fwy i leihau pwyntiau cyffwrdd ac mae'r myfyriwr yn dal i benderfynu pryd y mae am symud ymlaen?

A: Bydd , bydd y cyflenwr yn cysylltu â'r cwsmer yn rhagweithiol i'w cynnwys yng nghan nesaf y broses DSA.

C: A fydd disgwyl i'r cyflenwyr newydd ddarparu asesiadau ac offer ergonomig?

A: Bydd, mae'r contractau newydd yn cynnwys asesiadau ergonomig a chyflenwad technoleg gynorthwyol i gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd yn ogystal ag amrywiaeth o offer eraill megis dodrefn ergonomig.

C: A allwch chi roi i ni nifer y sesiynau hyfforddi Technoleg Gynorthwyol y mae eich gwariant o £3m yn eu cynrychioli?

A: Nid oes data ar gael ar nifer y sesiynau hyfforddi technoleg gynorthwyol. Ar hyn o bryd nid yw ein systemau yn adrodd ar hyn.

C: A allech chi roi barn ar yr anabledau mwyaf cyffredin y dyfernir DSA yn eu herbyn i gefnogi myfyrwyr?

A: Gweler y ffigurau diweddaraf isod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021 - 2022:

Anhawster dysgu penodol	33.6%
Iechyd Meddwl	24.8%
Anabledau lluosog	20.7%
Salwch hirdymor	11.6%
Awtistiaeth	5.4%
Byddar/Nam ar y clyw	1.7%
Cadair olwyn/mudoled	1.2%
Dall/Nam ar y golwg	1.0%

C: Pa effaith sydd ar fyfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r cyflenwyr newydd?

A: Mae'r caffael yn ei gamau cynnar ar hyn o bryd ac, os bydd newid yn y cyflenwr, nid ydym yn rhagweld y caiff contractau eu dyfarnu tan yn ddiweddarach eleni. Pan fydd contractau'n cael eu dyfarnu, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno fesul cam ar draws y rhanbarthau i sicrhau symudiad graddol i'r model cyflenwyr newydd. Er y bydd myfyrwyr presennol yn cael eu trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn y pen draw, rydym yn disgwyl i'r effaith fod yn fach iawn.

Byddem yn disgwyl i unrhyw gwmni sydd wedi cael ei dalu ymlaen llaw am warant ac yswiriant i barhau i gefnogi ein cwsmeriaid am hyd y cyfnod rhagdaledig (hyd cwrs disgwylidig y myfyrwyr fel arfer). Lle nad yw cwmnïau'n anrhydeddu'r cytundeb hwn, bydd SLC, ar y cyd â'r Adran Addysg a/neu LIC, yn cymryd camau i adennill unrhyw arian mewn perthynas â'r cymorth a dalwyd. Mae'r arian hwn wedi'i dalu ar gyfer hawl y myfyriwr i gael grant DSA ac, fel arian cyhoeddus, rhaid ei ddefnyddio at y diben a dalwyd.

C: Beth am ecwiti i fyfyrwyr sydd ar y system bresennol a myfyrwyr ar system newydd? Bydd myfyrwyr newydd yn cael mantais ychwanegol.

A: Yn y pen draw, bydd myfyrwyr presennol yn cael eu trosglwyddo i'r trefniadau newydd trwy eu cyflwyno fesul cam ar draws y rhanbarthau.

C: Os na fydd Canolfan yn cyrraedd y rhestr fer o wyth mewn rhanbarth yw diwedd y llinell i'r Ganolfan ac a allwn gymryd yn ganiataol na fydd SFE yn dymuno ymgysylltu â hi mwych o fewn y broses DSA y tu hwnt i fis Medi 2022?

A: Mae'r caffael yn ei gamau cynnar ar hyn o bryd ac, os bydd newid yn y cyflenwr, nid ydym yn rhagweld y caiff contractau eu dyfarnu tan yn ddiweddarach eleni. Pan fydd contractau'n cael eu dyfarnu, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno fesul cam ar draws y rhanbarthau i sicrhau symudiad graddol i'r model cyflenwyr newydd. Drwy gydol y cyfnod pontio i'r model gwasanaeth newydd, rydym yn disgwyl parhad gwasanaeth gan ein cyflenwyr presennol lle maent wedi cael eu talu am nwyddau a gwasanaethau a chymorth ar gyfer hyd cyrsiau myfyrwyr. Pe bai cyflenwr yn penderfynu gadael y farchnad, byddem yn gweithio'n agos gydag unrhyw fyfyrwr yr effeithir arnynt i roi sicrwydd a sicrhau eu bod yn cael cymorth parhaus.

C: Mae Sleid 4 yn cyfeirio at "welliannau ehangach i'r broses asesu". Beth mae SLC yn rhagweld fydd y gwelliannau hyn pan fyddant yn debygol o gael eu gweithredu?

A: Mae hyn yn cyfeirio at y gwelliannau y manylir arnynt ar sleid 21. Bydd y gwaith gwella asesiad DSA yn ei gwneud yn bosibl ac yn haws i fwy o gwsmeriaid DSA wneud cais ar-lein.

C: Mae Sleid 21 yn cyfeirio at "brosiect sydd ar y gweill yn SLC i ddiwygio'r broses ymgeisio ar gyfer cwsmeriaid sy'n derbyn DSA" a "gwaith gwella asesiad DSA". Beth mae SLC yn rhagweld fydd y gwelliannau hyn a phryd maent yn debygol o gael eu gweithredu?

A: Mae SLC ar hyn o bryd yn gweithio ar ddiwygiadau i wella'n sylweddol y profiad ymgeisio i fyfyrwyr sy'n cael DSA. Bydd y gwelliannau hyn yn galluogi pob myfyriwr DSA i wneud cais trwy wasanaeth ymgeisio hygyrch, cwbl ar-lein, gyda mynediad at gymorth a chefnogaeth ddigidol ar bob cam o'u taith cyllid myfyriwr. Mae SLC yn disgwyl y bydd y newidiadau hyn o fudd i fyfyrwyr yn ddiweddarach eleni.

Amserlen a cham nesaf**C: Beth yw'r camau nesaf yn y broses gaffael? Beth yw'r amserlen?**

A: Mae hon yn broses dau gam gyda'r alwad am gystadleuaeth yn agor y - cam cyntaf. Disgwylir i'r alwad am gystadleuaeth agor ar 1 Ebrill.

Bryd hynny, bydd cynigwyr â diddordeb yn ymateb i'n hanghenion trwy lenwi holiadur dethol. Mae'r holiadur dethol yn dempled safonol a ddiffinnir gan Crown Commercial ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr amlinellu ei addasrwydd i ymgysylltu â chontractau'r Llywodraeth.

Ategir yr holiadur gan rai cwestiynau ynghylch sgiliau a ' phrofiad perthnasol cyflenwyr a'r lotiau y maent yn bwriadu cynnig amdanynt. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso i bennu rhestr fer o'r cyflenwyr mwyaf addas.

Bydd hyd at wyth cynigydd sydd, rhyngddynt, yn darparu cwmpas ar gyfer yr holl lotiau yn cael eu cludo ymlaen i'r ail gam, y Gwahoddiad i Dendro (ITT).

Bydd y gwahoddiad i dendro yn gofyn am ymateb ysgrifenedig a fydd yn cynnwys cwestiynau ansawdd, cwestiynau gwerth cymdeithasol a hefyd ymateb pris masnachol. Bydd gofyn hefyd i'r cynigwyr wneud cyflwyniad i SLC i helpu i egluro eu cais.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gael pan fydd yr hysbysiad contract wedi'i gyhoeddi.

C: Beth yw'r amseriadau ar gyfer sefydlu'r model newydd?

A: Rydym yn rhagweld y bydd contractau ar waith yn ddiweddarach eleni unwaith y bydd y broses gaffael wedi'i chwblhau a'r cyflenwyr wedi'u penodi.

C: Pwy sy'n ysgrifennu'r cwestiynau ar gyfer yr Holiadur Cyn-gymhwyso, pa ddealltwriaeth sydd ganddynt o'r diwydiant DSA a phwy fydd yn beirniadu'r ymatebion?

A: Bryd hynny, bydd cynigwyr â diddordeb yn ymateb i'n hanghenion trwy lenwi holiadur dethol. Mae'r holiadur dethol yn dempled safonol a osodwyd gan Crown Commercial Service ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr amlinellu eu haddasrwydd i ymgysylltu â chontractau'r llywodraeth.

Bydd yr holiadur yn cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol ynghylch sgiliau a phrofiad perthnasol cyflenwyr a'r lotiau y maent yn bwriadu cynnig amdanynt.

Bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried gan banel gwerthuso sy'n ymgorffori ystod o brofiad.

C: A all SLC gadarnhau a oes disgwyl i TUPE wneud cais?

A: Nid yw SLC yn ystyried bod TUPE yn berthnasol, yn bennaf oherwydd nad yw'r model cyflawni presennol yn cynnwys perthynas gytundebol rhwng SLC a'r cyflenwr.

C: A fydd cynigwyr yn gallu hyrwyddo'r cynllun i ddarpar ymgeiswyr yn y rhanbarthau y maent wedi'u penodi iddynt?

A: Er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau, ni ddylai cyflenwyr trydydd parti DSA hysbysebu'r gwasanaeth DSA. Fodd bynnag, byddai SLC yn hapus i weithio gyda chyflenwyr i ddeall unrhyw fylchau mewn ymwybyddiaeth o'r cynnyrch DSA.

C: Rydym yn ddarparwr hyfforddiant AT ond nid ydym yn cyflenwi offer felly ni fyddwn yn mynd i dendro. A oes rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y bydd y contract newydd yn dod i rym? Ymhellach a fydd cyfleoedd i barhau i ddarparu'r gwasanaeth a wnawn ac os felly sut trwy'r sefydliad y dyfernir y contract iddo? Byddai unrhyw wybodaeth bellach am sut y bydd hyn yn gweithio a graddfeydd amser yn ddefnyddiol iawn.

A: Bydd rhagor o wybodaeth am y broses gaffael ar gael pan fydd yr hysbysiad contract wedi'i gyhoeddi. Cynigiwyd y cyfle i bartion â diddordeb rannu eu manylion cyswllt â sefydliadau eraill i gydweithio ar fidiau. Anfonwyd y manylion hyn at yr holl ymatebwyr a gofrestrwyd ar borth Delta eSourcing.

Os hoffech ychwanegu eich manylion at y gofrestr hon, anfonwch nhw trwy borth eGyrchu Delta a byddwn yn ail-gylchredeg y rhestr.

Beth mae'r diwygiadau hyn yn ei olygu i'r sector?

A: Etifeddodd SLC weinyddiaeth y DSA gan awdurdodau lleol fwy na 10 mlynedd yn ôl ac yn yr amser hwnnw ni roddwyd unrhyw gontractau ar waith rhwng SLC ac unrhyw un o'r cyflenwyr. Er ein bod yn cydnabod bod y newid i fodel cyflenwyr newydd yn ddiwygiad sylweddol, rydym yn hyderus y bydd y diwygiadau yn rhoi profiad gwell i gwsmeriaid sy'n cael DSA.

Dylai rhoi trefniadau cytundebol ar waith rhwng SLC a'r cyflenwyr alluogi'r gwasanaeth i gael ei reoli, ei fonitro a'i reoli'n fwy effeithiol. Bydd rheoli perfformiad cadarn ar lefelau fframwaith a chontract hefyd yn rhoi sicrwydd bod gwerth am arian yn cael ei ddarparu.

Gwyddom fod DSA yn hanfodol i alluogi cyfleoedd ac ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ac rydym am gynyddu effeithlonrwydd prosesau, sicrhau gwerth am arian a gwella profiad y cwsmer.

C: Pa opsiynau eraill a ystyriwyd fel model caffael?

A: Ystyriwyd ystod eang o fodolau posibl, gan gynnwys contractio'r model 'fel y mae'. Roedd y model cyflenwyr rhanbarthol, gyda hyd at bedwar cyflenwr, yn mynd i'r afael â'r angen i gynyddu effeithlonrwydd prosesau, sicrhau gwerth am arian a gwella profiad y cwsmer.

Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni asesiadau o anghenion, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol yn mynd i'r afael â'r pwyntiau poenus cwsmeriaid rydym wedi'u nodi, gan gynnwys y cyfrifoldeb sydd ar gwsmeriaid i weithredu a gorfod cysylltu â chwmnïau lluosog. Bydd y model cyflenwyr newydd yn sicrhau bod gan gwsmeriaid eglurder ynghylch ble maent yn y broses ac yn golygu mai un cyflenwr sy'n berchen ar eu taith.

C: Pryd fydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi?

A: Disgwyliwn i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gyhoeddi ar ôl i'r alwad am gystadleuaeth agor.

Ansawdd

C: Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd wrth weithio gyda nifer fach o sefydliadau?

A: Gan gydweithio â SLC, DfE a Llywodraeth Cymru, bydd cyflenwyr yn creu fframwaith ansawdd sy'n sicrhau bod profiad cwsmeriaid wrth wraidd y diwygiadau.

Bydd hyn yn cynnwys lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, safonau ansawdd a phrosesau ar gyfer datrys achosion eithriadol.

Bydd disgwyl i'r cyflenwr olrhain statws a hanes pob cyswllt â chwsmeriaid trwy'r broses o'r dechrau i'r diwedd ac adrodd i SLC. Bydd pob cam o'r broses yn cael ei fesur yn erbyn DPA a bydd y cyflenwr yn adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y DPA.

Er mwyn sicrhau llywodraethu gwasanaeth priodol, bydd SLC yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflenwr gymryd rhan mewn adolygiadau perfformiad misol ac adolygiadau cyfrifon ddwywaith y flwyddyn. Bydd y fforwm hwn yn pennu pa mor dda y mae mesurau allweddol yn cael eu bodloni a sut mae cwsmeriaid a SLC yn derbyn y gwasanaeth.

Bydd y cyflenwr yn hwyluso mynediad SLC at ddata cwsmeriaid amser real i reoli'r gwasanaeth ac i ganiatáu i archwiliadau ac ymchwiliadau gael eu cynnal lle bo angen.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid drwy gydol y broses, drwy'r arolwg myfyrwyr a phanel cwsmeriaid y Lwfans, i sicrhau bod eu hadborth yn llywio'r fframwaith ansawdd.

C: Sut y byddwch yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ansawdd drwy'r diwygiadau hyn?

A: Rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid anfasnachol, megis cyrff trydydd sector, yn y trafodaethau hyn i sicrhau bod y fframwaith ansawdd yn gweddu orau i'n cwsmeriaid.

Rydym wedi sefydlu panel cwsmeriaid ar gyfer myfyrwyr sy'n cael DSA i drafod diwygiadau a gwelliannau y gellir eu gwneud.

Mae gennym hefyd fforwm sefydledig gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Anabl (DSSG) gydag aelodaeth sy'n cynrychioli barn y sector DSA.

Yn ogystal â gweithio gyda chyflenwyr i wella a chryfhau'r safonau ansawdd presennol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau sy'n eirioli ar ran myfyrwyr anabl i lywio'r fframwaith ansawdd.

C: A fydd y QAF yn berthnasol i sefydlu canolfan a'r broses asesu neu a fydd fersiwn ddiwygiedig? Pwy fydd yn archwilio hyn?

A: Bydd y canllawiau presennol ar gyfer canolfannau asesu yn cael eu disodli gan gyflwyno contractau. Bydd rhagor o wybodaeth am y broses gaffael ar gael pan fydd yr hysbysiad contract wedi'i gyhoeddi.

C: Sut y darperir ar gyfer arbenigeddau (amlder isel, lefel uchel o ofynion cymorth) o dan y model caffael newydd?

A: Bydd yn ofynnol i'r cyflenwyr newydd gefnogi asesiadau o anghenion, darparu offer a hyfforddiant ar gyfer yr ystod lawn o anabledau, gan gynnwys anabledau mynychder isel / cefnogaeth uchel megis namau ar y golwg a'r clyw.

Bydd cyflenwyr hefyd yn gweithio gyda'r SLC, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i wella a chryfhau'r safonau ansawdd presennol er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid.

C: Sut byddwch chi'n cynnal arbenigedd darparwyr llai, arbenigol sy'n cefnogi myfyrwyr sy'n cael DSA o dan y model newydd?

A: Rydym wedi ymrwymo i farchnad DSA cynaliadwy. Mae'r fframwaith wedi'i greu mewn ffordd sy'n galluogi darpar gyflenwyr i strwythuro'r gwasanaethau yn y ffordd y teimlant sydd orau i ddiwallu ein hanghenion, gan gynnwys sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y myfyrwyr hynny sydd angen cymorth mwy arbenigol.

Mae SLC yn croesawu ac yn annog cyflenwyr - yn etifeddol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad DSA - yn unol â chefnogaeth y Llywodraeth i BBaChau.

Rydym hefyd yn annog partïon â diddordeb i ffurfio perthnasoedd i ganiatáu i ddulliau arloesol gael eu cynnig a chyflawni cwmpas daearyddol llawn. Er mwyn annog cydweithio, rydym yn cyhoeddi dogfen ar borth eGyrchu Delta i rannu manylion sefydliadau a allai fod eisiau partneru â chyflenwyr eraill.

C: A fydd pecynnau cymorth penodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r tendr?

A: Mae SLC, ynghyd â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru, yn ystyried newid y gellir ei gyflwyno i'r gwasanaeth DSA yn y dyfodol, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau.

Pe bai'r newid hwn yn cael ei weithredu yn y dyfodol, byddai'r newid yn cynnig dewis i rai gosod grwpiau o gwsmeriaid DSA rhwng mynychu asesiad anghenion neu yn lle hynny ddewis pecyn cymorth penodol sy'n gysylltiedig â'u cyflwr.

Y rhesymeg dros ystyried y newid hwn yw mynd i'r afael ag adborth bod rhai myfyrwyr yn gweld yr asesiad o anghenion yn rhwystr i gael mynediad at gymorth a bod ganddynt eisoes syniad clir o ba gymorth y bydd ei angen arnynt.

Mater i'r cwsmer yn unig fyddai dewis pecyn cymorth penodol neu fynychu asesiad anghenion, a byddai myfyrwyr bob amser yn cadw'r hawl i gael asesiad llawn o anghenion ar unrhyw adeg.

Er y byddai'r dewis hwn yn gyfyngedig i gwsmeriaid â chyflyrau penodol ac ni fyddai ar gael i bob cwsmer DSA, gallai effeithio ar y galw am apwyntiadau asesu anghenion ar adeg yn y dyfodol ar gyfer y grŵp hwnnw.

Byddai cyflenwyr yn cael eu cynnwys o'r camau cynllunio cynnar ynghylch unrhyw newidiadau posibl.

C: A roddwyd ystyriaeth i amseriad y tendr hwn, o ystyried y gofynnir i gyflenwyr gynnig pryd y gallai gwaith asesu leihau'n sylweddol os caniateir i rai myfyrwyr hunanasesu?

A: Mae SLC, ynghyd â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru, yn ystyried newid y gellir ei gyflwyno i'r gwasanaeth DSA yn y dyfodol, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau.

Byddai cyflenwyr yn cael eu cynnwys o'r cam dylunio cynnar ynghylch unrhyw newidiadau posibl a byddai Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd yn y cyflwyniad nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar y fenter hon a disgwylir pe bai'r newid hwn yn mynd rhagddo yn y dyfodol dim ond i gwsmeriaid ag amodau penodol y byddai'n berthnasol.

C: A yw caniatáu i fyfyrwyr ag anableddau penodol hunanasesu, ond nid rhai eraill, yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010?

A: Y rhesymeg dros ystyried y newid hwn yw mynd i'r afael ag adborth bod rhai myfyrwyr yn gweld yr asesiad o anghenion yn rhwystr i gael mynediad at gymorth a bod ganddynt eisoes syniad clir o ba gymorth y bydd ei angen arnynt.

Mater i'r cwsmer yn unig fyddai dewis pecyn cymorth penodol neu fynychu asesiad anghenion, a byddai myfyrwyr bob amser yn cadw'r hawl i gael asesiad llawn o anghenion ar unrhyw adeg.

Cyn i unrhyw newid gael ei roi ar waith, byddai asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei gynnal.

C: Rhowch ddyddiad neu amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno Hunanasesiadau os cânt eu cymeradwyo.

A: Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar gyflwyno pecynnau cymorth penodol.

C: A yw SLC yn gweld y broses asesu yn newid - e.e. a yw'n debygol y bydd newid i'r templed NAR eto?

A: Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses asesu wedi'u cynllunio ar hyn o bryd ond efallai y bydd newidiadau gweinyddol, megis diweddariadau i'r templed NAR, o bryd i'w gilydd yn ystod y contract. Bydd SLC yn ymgysylltu'n brydlon â chyflenwyr ynghylch unrhyw newidiadau.

C: A fydd Adolygiad Anghenion a ariennir yn parhau i fod yn arfer derbynol?

A: Bydd, bydd adolygiad o anghenion yn cael ei ariannu lle bo angen.

C: A ydych yn gallu darparu nifer yr adolygiadau a ariannwyd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnodau a nodir ar dudalen 16 y cyflwyniad?

A: Nid oes data ar gael ar nifer yr adolygiadau a ariennir nid yw ein systemau presennol yn adrodd ar hyn.

C: A fydd llythyrau DSA1 myfyrwyr yn parhau i gael eu dosbarthu drwy gydol y flwyddyn, neu a fydd ffenestr(i) prosesu penodol?

A: Nid oes unrhyw newid o ran pryd mae angen i gwsmeriaid gyflwyno eu ceisiadau a'u tystiolaeth, felly rydym yn rhagweld y bydd cwsmeriaid yn parhau i wneud cais am DSA drwy gydol y flwyddyn a bydd hysbysiadau cymhwysedd yn cael eu cyhoeddi'n barhaus.

Rydym, wrth gwrs, yn parhau i weithio i hyrwyddo ceisiadau cynnar er mwyn cynyddu nifer y cwsmeriaid sydd â chymorth yn ei le cyn dechrau eu cwrs. Yn y model cyflawni newydd, mae SLC yn bwriadu rhannu manylion cwsmeriaid cymwys gyda phartneriaid rhanbarthol a bydd hyn yn dileu'r angen i gwsmeriaid gymryd camau ar ôl derbyn llythyr DSA1.

C: A ellir cadarnhau a yw'r dull a ddefnyddir i gynnal yr asesiad yn dibynnu ar ddewis y myfyrwyr yn unig, ac ni fyddai angen caniatâd ymlaen llaw ar gyfer asesiad o bell.

A: Bydd cyflenwyr yn darparu asesiadau anghenion wyneb yn wyneb neu o bell, yn ôl dewis y cwsmer, ar gyfer cwsmeriaid sy'n hanu o'r parth neu'r parthau y maent yn gyfrifol amdanynt.

C: Pam nad yw cymorth anfeddygol (NMH) a theithio wedi'u cynnwys yn y tendr?

A: Fel y cadarnhawyd yn y diwrnod cyflenwyr, comisiynwyd SLC i roi contractau yn eu lle ar gyfer cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol. Felly nid yw NMH a theithio o fewn cwmpas y diwygiadau caffael.

C: Sut bydd y newidiadau yn effeithio ar y ddarpariaeth o gymorth anfeddygol (NMH)?

A: Bydd aseswyr anghenion yn parhau i ddarparu dau ddyfynbris ar gyfer darpariaeth NMH, fel y maent yn ei wneud o dan y system bresennol.

C: A oes rhestr o ddarparwyr NMH cymeradwy?

A: Oes, mae'r Adran Addysg yn cadw cofrestr o ddarparwyr NMH sy'n gallu cefnogi myfyrwyr SFE. Gall myfyrwyr CMC ofyn am gymorth NMH gan unrhyw ddarparwr addas ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y rôl ac er nad oes gofyniad i fyfyrwyr CMC ddewis darparwr NMH o'r gofrestr hon, defnyddir y gofrestr yn aml i helpu i nodi darparwyr addas ac felly mae'n fuddiol i ddarparwyr NMH fod ar y gofrestr. Cyhoeddir y gofrestr ar wefan SLC.

C: Gallai newid darparwr NMH darfu'n aruthrol ar fyfyrwr. A fydd myfyrwr yn cael cadw eu darparwr NMH presennol / cyfredol?

A: Ni ddylai symud i'r trefniadau newydd olygu bod angen i unrhyw fyfyrwr sydd â chymorth NMH presennol newid darparwr NMH. Nid yw NMH o fewn cwmpas y caffaeliad a bydd y prosesau presennol yn parhau yn eu lle.

C: Beth fydd yn digwydd i fyfyrwr os bydd cyflenwr yn gadael y farchnad yn gyflym oherwydd y newidiadau caffael?

A: Trwy gydol y cyfnod pontio i'r model gwasanaeth newydd, rydym yn disgwyl parhad gwasanaeth gan ein cyflenwr presennol. Pe bai cyflenwr yn penderfynu gadael y farchnad, byddem yn gweithio'n agos gydag unrhyw fyfyrwr yr effeithir arnynt i roi sicrwydd a sicrhau eu bod yn cael cymorth parhaus.

C: A yw SLC wedi ystyried ac a fydd yn rhoi unrhyw beth ar waith, mewn perthynas â chefnogi'r myfyrwr sydd eisoes yn cael eu cyflenwi gan Gyrrwyr Cynorthwyol Athrawon presennol sy'n debygol o beidio â pharhau â gwasanaeth os nad ydynt yn llwyddiannus yn y tendr hwn?

A: Trwy gydol y cyfnod pontio i'r model gwasanaeth newydd, rydym yn disgwyl parhad gwasanaeth gan ein cyflenwr presennol. Pe bai cyflenwr yn penderfynu gadael y farchnad, byddem yn gweithio'n agos gydag unrhyw fyfyrwr yr effeithir arnynt i roi sicrwydd a sicrhau eu bod yn cael cymorth parhaus.

Byddem yn disgwyl i unrhyw gwmni sydd wedi cael ei dalu ymlaen llaw am warant ac yswiriant i barhau i gefnogi ein cwsmeriaid am hyd y cyfnod rhagdaledig, hyd cwrs disgwylidig y myfyrwr fel arfer.

Lle nad yw cwmnïau'n anrhydeddu'r cytundeb hwn, bydd SLC, ar y cyd â'r Adran Addysg a/neu LIC, yn cymryd camau i adennill unrhyw arian mewn perthynas â'r cymorth a dalwyd. Mae'r arian hwn wedi'i dalu ar gyfer hawl y myfyriwr i gael grant DSA ac, fel arian cyhoeddus, rhaid ei ddefnyddio at y diben a dalwyd.

C: Sut bydd myfyrwr sy'n parhau yn cael eu cefnogi?

A: Byddem yn disgwyl i unrhyw gwmni sydd wedi cael ei dalu ymlaen llaw am warant ac yswiriant i barhau i gefnogi ein cwsmeriaid am hyd y cyfnod rhagdaledig, hyd cwrs disgwylidig y myfyrwr fel arfer.

Lle nad yw cwmnïau'n anrhydeddu'r cytundeb hwn, bydd SLC, ar y cyd â'r Adran Addysg a/neu LIC, yn cymryd camau i adennill unrhyw arian mewn perthynas â'r cymorth a dalwyd. Mae'r arian hwn wedi'i dalu ar gyfer hawl y myfyriwr i gael grant DSA ac, fel arian cyhoeddus, rhaid ei ddefnyddio at y diben a dalwyd.

C: Pa ymgynghori/ymgysylltu sydd wedi digwydd cyn y diwygiadau?

A: Mae myfyrwyr a grwpiau cynrychioli myfyrwyr wedi cael eu cynnwys drwy gydol y broses. Gyda'u hadborth, mae model wedi'i gynllunio yr ydym yn hyderus y bydd yn gwella'r gwasanaeth i fyfyrwyr ac yn sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus.

O ran cwsmeriaid, mae SLC wedi cynnal ymchwil cwsmeriaid cyn y diwygiadau i'r DSA, gan gynnwys arolygu dros 4,500 o gwsmeriaid a chynnal nifer o gyfweiliadau un i un manwl i ddeall taith y cwsmer a dilysu'r pwyntiau poen a nodwyd. Rydym hefyd wedi sefydlu Panel Cwsmeriaid DSA i glywed mwy am brofiadau cwsmeriaid sy'n cael DSA a helpu llunio'r diwygiadau.

O ran cyflenwyr presennol, ni fyddai'n briodol ymgynghori â chyflenwyr presennol ar fanylion masnachol ymarfer caffael y llywodraeth. Diwygiad gweinyddol yw hwn ac nid yw'n effeithio ar bolisi DSA, cymhwyster myfyrwyr na hawl.

C: A allwch chi roi'r gorau i ddefnyddio'r ymadrodd 'pwyntiau poen' gan ei fod yn gallu sbarduno adwaith?

A: Diolch am yr adborth hwn, byddwn yn ei ystyried ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol.

C: A ydych chi'n rhagweld y bydd HEP yn cymryd rhan yn y broses DSA? A oes unrhyw fwriad i ymgynghori â darparwyr addysg uwch ynghylch unrhyw newidiadau?

A: Gall cyflenwyr strwythuro'r gwasanaethau mewn ffordd y maent yn teimlo sydd orau i fodloni gofynion y contract.

Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid anfasnachol drwy gydol y broses a byddwn yn parhau i wneud hynny.

O ran cyflenwyr presennol, ni fyddai'n briodol ymgynghori â chyflenwyr presennol ar fanylion masnachol ymarfer caffael y llywodraeth. Diwygiad gweinyddol yw hwn ac nid yw'n effeithio ar bolisi DSA, cymhwyster myfyrwyr na hawl.

Diwedd